Prentisiaeth Sylfaenol mewn Cefnogi Dysgu ac Addysgu

Mae'r cymhwyster hwn yn addas i'r rheini sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol ac sy'n dymuno cael cymhwyster sy'n profi eu sgiliau ac yn eu helpu i ddatblygu eu gyrfa. Cewch eich asesu drwy aseiniadau, astudiaethau achos, arsylwi arferion gwaith, tystiolaeth tystion arbenigol, ymarfer ffug a thrafodaethau proffesiynol. Byddai'r cymhwyster hwn yn addas i Gynorthwywyr Addysgu, Cynorthwywyr Dosbarth a Chynorthwywyr Cefnogi Dysgu. Ariennir y rhaglen hon gan Lywodraeth Cymru ac fe'i hariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.*

Mae'r Fframwaith Prentisiaeth Sylfaenol mewn Cefnogi Dysgu ac Addysgu'n cynnwys Tystysgrif Lefel 2 City and Guilds mewn Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion a Chyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol Sgiliau Hanfodol Cymru.

I fynegi eich diddordeb, neu i gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 0808 2000 129 neu anfonwch eich manylion cyswllt drwy e-bost i enquiries@cadcentreuk.com

Mae'r wybodaeth farchnata hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Cyflwynir y cynllun hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Prentisiaeth Sylfaenol mewn Cefnogi Dysgu ac Addysgu*:

Mae'r cymhwyster hwn yn berthnasol i'r holl staff cefnogi dysgu y mae eu cyfrifoldebau yn y gwaith yn gyfyngedig o ran sgôp. Bydd unigolion yn gweithio dan oruchwyliaeth agos yr athro dosbarth, a bydd ei gynlluniau gwersi a'i gyfarwyddyd o ddydd i ddydd yn pennu'r fframwaith ar gyfer gwaith yr unigolyn. Mae gofyn cwblhau nifer o elfennau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, a asesir ac a ardystir yn annibynnol. Bydd gan y rhai sy'n llwyddo i gwblhau'r cymhwyster y wybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i'w rôl yn cefnogi addysgu a dysgu mewn ysgolion, gan gynnwys y sgiliau sylfaenol i fod yn weithiwr effeithiol yn y sector. Hefyd, mae'r fframwaith yn cynnwys dwy elfen (a) Tystysgrif Lefel 2 City and Guilds mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion (b) a Chyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh Sgiliau Hanfodol Cymru.

(a) Tystysgrif Lefel 2 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig cyfle i'r dysgwr ddatblygu cyfres eang o sgiliau a fydd yn hwyluso cynnydd yn y gweithle a/neu ymlaen i ddysgu pellach. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys unedau Gorfodol a Dewisol.

Unedau Gorfodol

Uned 201 – Datblygiad plant a phobl ifanc (2 Credyd)
Uned 202 – Diogelu a lles plant a phobl ifanc (3 Credyd)
Uned 203 – Cyfathrebu a pherthynas broffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion (2 Credyd)
Uned 204 – Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc (2 Credyd)
Uned 206 – Helpu i wella ei arferion ei hun ac arferion y tîm mewn ysgolion (3 Credyd)
Uned 207 – Cynnal a chefnogi perthynas gyda phlant a phobl ifanc (3 Credyd)
Uned 208 – Cefnogi iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc (3 Credyd)
Uned 209 – Cefnogi ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc (2 Credyd)
Uned 210 – Cefnogi gweithgareddau dysgu (4 Credyd)
Uned 302 – Ysgolion fel sefydliadau (3 Credyd)

Unedau Dewisol - Rhaid ennill isafswm o 3 credyd o'r canlynol:

Uned 211 – Cyfrannu at gefnogi dysgwyr dwyieithog (2 Credyd)
Uned 309 – Arolygu profion ac arholiadau (3 Credyd)
Uned 212 – Paratoi a chynnal amgylcheddau dysgu (3 Credyd)
Uned 213 – Paratoi arddangosfeydd mewn ysgolion (3 Credyd)
Uned 307 – Cefnogi asesu i ddysgu (4 Credyd)
Uned 214 – Cefnogi plant a phobl ifanc amser bwyd neu amser byrbrydau (3 Credyd)
Uned 215 – Cefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig (4 Credyd)
Uned 216 – Cefnogi amser chwarae a hamdden plant a phobl ifanc (3 Credyd)
Uned 218 – Cefnogi gweithgareddau allgyrsiol (3 Credyd)
Uned 221 – Symud a lleoli unigolion yn unol â'u cynlluniau gofal (4 Credyd)
Uned 222 – Rhoi cefnogaeth ar gyfer sesiynau therapi (2 Credyd)

(b) Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae gan y sgiliau hyn rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu dysgwyr gynyddu eu sgiliau ac i gwblhau eu rhaglen ddysgu yn effeithiol.

.

Cyfathrebu Hanfodol Lefel 2 yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:

- Siarad a Gwrando
- Darllen
- Ysgrifennu

Er mwyn ennill y cymhwyster Cyfathrebu Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

Cymhwyso Rhif Hanfodol Lefel 1 yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:

- Deall Data Rhifiadol
- Cynnal Cyfrifiadau
- Dehongli a Chyflwyno Canlyniadau a Chanfyddiadau

Er mwyn ennill y cymhwyster Cyfathrebu Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 1:

- Llythrennedd Digidol Hanfodol yn ymwneud â gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad yn y defnydd o ddyfeisiau digidol
- Chyfrifoldeb Digidol - gwybod sut i aros yn ddiogel ac i weithredu'n briodol ar-lein
- Cynhyrchiant Digidol - gwybod pa dechnegau, offer a thechnegau i'w defnyddio a sut i drefnu, rhannu a diogelu gwybodaeth ddigidol
- Gwybodaeth Ddigidol Llythrennedd – yn gallu dod o hyd I, gwerthuso'n feirniadol a defnyddio gwybodaeth ddigidol yn ddiogel
- Cydweithio'n Ddigidol - rhannu gwybodaeth a chydweithio ag eraill i gwblhau tasgau a datrys problemau
- Creadigrwydd Digidol - bod yn gallu defnyddio cyfryngau digidol i gwblhau tasgau, creu cynnwys a datblygu cyfleoedd
- Dysgu Digidol – deall sut y gall technoleg ymestyn cyfleoedd dysgu

Er mwyn ennill y cymhwyster Cyfathrebu Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

***Yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd ac os oes cyllid ar gael gan y llywodraeth**